

Polisi Goruchwyllo Myfyrwyr Meistr a Addysgir

1. Pennu Goruchwyliwr Traethodau Hir Meistr a Addysgir

- (1) Y dasg gyntaf i fyfyrwyr sy'n cofrestru ar Ran II rhaglen Meistr, sef y traethawd hir, fydd paratoi a chyflwyno cynnig traethawd hir i'w ystyried gan y Cyfarwyddwr Rhaglen a fydd yn cytuno ar oruchwyliwr priodol.
- (2) Bwriad y polisi hwn yw rhoi canllaw i fyfyrwyr ac i oruchwylwyr o ran y broses o oruchwyllo, a chyfrifoldebau perthnasol myfyrwyr a goruchwylwyr.
- (3) Ar rai Rhaglenni Astudio, mae Rhan II yn cynnwys prosiect neu bortffolio yn hytrach na thraethawd hir traddodiadol. Drwy gydol y ddogfen hon, bydd pob cyfeiriad at y traethawd hir hefyd yn berthnasol i brosiectau a phortffolios o'r fath.
- (4) Fel arfer ni dderbynnir traethodau hir i'w hasesu oni bai iddynt fod trwy broses o oruchwyliaeth gan diwtor.

2. Cyfrifoldebau'r Goruchwyliwr

- (1) Bydd goruchwylwyr traethodau hir yn gyfrifol am:
 - a) annog y myfyriwr i archwilio ystod o destunau ymchwil dichonol o fewn y maes a ddewiswyd i'w astudio ac a ddynodwyd yn y teitl arfaethedig;
 - b) darparu cyngor ac arweiniad priodol ym mhob agwedd ar gynhyrchu'r traethawd hir;
 - c) sicrhau y ceir cymeradwyaeth foesegol briodol ar bob cam wrth baratoi'r traethawd hir;
 - d) cytuno ar amserlen gyda'r myfyriwr ar gyfer cyflwyno'r gwaith a threfnu cyfarfodydd rheolaidd a sicrhau bod crynodeb cywir o ganlyniadau pob cyfarfod yn cael ei gofnodi ar y Cofnod Goruchwyllo Traethawd Hir Ôl-raddedig a Addysgir (Atodiad GA19) a'i lofnodi gan y goruchwyliwr a'r myfyriwr;
 - e) sicrhau y dychwelir gwaith drafft yn ôl terfynau amser penodedig gyda sylwadau adeiladol;
 - f) sicrhau na dderbynnir traethodau hir i'w hasesu oni bai iddynt fod trwy broses o oruchwyliaeth gan diwtor.

3. Cyfrifoldebau'r Myfyriwr

- (1) Bydd myfyrwyr traethodau hir yn gyfrifol am:
 - a) sicrhau mai eu gwaith nhw eu hunain yn anad dim yw'r traethawd hir a gynhyrchir ganddynt er iddynt elwa o gyngor ac arweiniad y goruchwyliwr;

- b) cwblhau'r gwaith o fewn y fframwaith a gytunwyd, gan dynnu sylw'r goruchwyliwr, cyn gynted ag sy'n bosibl ac yn ysgrifenedig, at unrhyw broblemau o ran cyflwyno gwaith hwyr neu anfoddhaol;
- c) cytuno ar amserlen gyda'r goruchwyliwr ar gyfer cyflwyno gwaith a threfnu cyfarfodydd rheolaidd;
- d) crynhoi canlyniadau a phwyntiau gweithredu pob cyfarfod ar y Cofnod Goruchwylio Traethawd Hir Ôl-raddedig a Addysgir (Atodiad GA19) gan ei gyflwyno i'r goruchwyliwr;
- e) sicrhau bod eu gwaith wedi'i olygu'n briodol, yn enwedig o ran cywirdeb gramadeg a sillafu;
- f) sicrhau bod unrhyw ddeunydd perthnasol sy'n deillio o'u hymchwil, megis trawsgrifiadau, yn cael eu cynnwys yn y traethawd hir neu'n cael eu cyflwyno fel atodiadau.

4. Cymorth gyda Thraethodau Hir

- (1) Fel arfer ni ddylai cyfanswm yr oruchwyliaeth fod yn fwy na 10 awr i drafod y cynnig a'r traethawd hir dilynol. Gall y cyfarfodydd hyn fod naill ai'n rhithwir (megis Microsoft Teams/e-bost/ffôn) neu wyneb yn wyneb.
- (2) Gall cyfran o gyfanswm yr oruchwyliaeth ar gyfer traethodau hir fod ar ffurf tiwtorialau grŵp neu weithdai.
- (3) Dylai'r myfyriwr gofnodi crynodeb o bob cyfarfod ar y Cofnod Goruchwylio Traethawd Hir Ôl-raddedig a Addysgir (GA19) i'w gadarnhau gan y goruchwyliwr o fewn 10 diwrnod gwaith clir.